


COFRESTR CANLLAW I'R SYSTEM RHEOLI IECHYD A DIOGELWCH		Canllaw	G004
 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY	Canllaw Cynefino Lleol ar Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd	Rhifyn	2
		Dyddiad	Ebrill 2021
		Tudalen	1 o 6

Bwriedir i'r canllaw isod fod yn fframwaith i'r Cyfadranau ac Adranau'r Gwasanaethau Proffesiynol drefnu sesiynau cynefino lleol ar iechyd, diogelwch ac amgylchedd, ac y mae'n rhoi manylion am y wybodaeth a'r adnoddau sydd ar gael i'r sawl sy'n gyfrifol am gynnal sesiynau cynefino iechyd, diogelwch ac amgylchedd.

Cyflwyniad

Mae gofyn i bob aelod newydd o'r staff, gan gynnwys y rhai sy'n symud i swyddi newydd yn y Brifysgol lle mae natur y rôl a'r peryglon y deuir ar eu traws yn wahanol, llenwi'r ffurflen Adroddiad Cychwyn Cyflogaeth Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd (F005). Dylid llenwi'r ffurflen o fewn pythefnos i gychwyn yn y swydd, ac y mae ar gael ar: <https://www.aber.ac.uk/cy/hse/documents/>.

Wedi ei llenwi, dylid cadw'r ffurflen Adroddiad Cychwyn Cyflogaeth Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd yn lleol yn y Gyfadrannau neu'r Adran, er mwyn monitro a sicrhau bod y gofynion hyfforddi a nodwyd wedi eu cwblhau.

Mae'n bwysig nodi y bydd natur a manylion y wybodaeth a roddir yn y sesiwn cynefino lleol ar iechyd, diogelwch a'r amgylchedd yn amrywio, yn dibynnu ar y swyddogaethau penodol a gyflawnir gan yr unigolion dan sylw.

Deunyddiau Cynefino Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd

Mae pob aelod o'r staff yn cael gweld cyflwyniad cynefino ar iechyd, diogelwch a'r amgylchedd sydd wedi ei recordio ymlaen llaw gan y Tîm Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd. Bydd y cyflwyniadau dwyieithog ar gael trwy'r modiwl 'BBHS001: Hyfforddiant Iechyd, Diogelwch ac Amgylcheddol' ar Blackboard. Bwriadwyd i'r deunyddiau roi cyflwyniad byr i'r trefniadau canolog ar gyfer iechyd, diogelwch a'r amgylchedd yn y Brifysgol, gan gynnwys ymwybyddiaeth o'r ystyriaethau craidd o ran iechyd, diogelwch a'r amgylchedd, megis Polisi Iechyd a Diogelwch y Brifysgol, y weithdrefn i gofnodi digwyddiadau, a manylion cyswllt y Tîm Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd.

Rhaid i'r wybodaeth a ddarperir yn y deunyddiau hyn gael ei hategu gan sesiynau cynefino lleol er mwyn rhoi gwybodaeth am drefniadau a gweithdrefnau lleol sy'n berthnasol i'r gwaith neu'r gweithgareddau a wneir gan yr unigolyn. Bydd y canllawiau a ganlyn yn rhoi mwy o wybodaeth am ystyriaethau allweddol a'r wybodaeth a ddylai gael ei chynnwys mewn sesiynau cynefino lleol.


Aelodau o'r Staff sy'n Gyfrifol am Gyflwyno Sesiynau Cynefino Lleol ar Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd

Mae modd i'r Sesiynau Cynefino Lleol ar Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd gael eu darparu gan unrhyw unigolyn cymwys yn y Gyfadrannau neu'r Adran Gwasanaethau Proffesiynol. Dirprwy Is-Ganghellor y Gyfadrannau neu Bennaeth yr Adran Gwasanaethau Proffesiynol ddylai bennu pwy yw'r unigolion sy'n gyfrifol am y cynefino. Gall unigolion o'r fath gynnwys rheolwyr llinell neu gydlynwyr iechyd a diogelwch sydd â gwybodaeth a dealltwriaeth dda am ofynion y rôl. Mewn achosion lle darperir y sesiynau cynefino gan aelodau gwahanol o'r staff, efallai y dymuna'r Gyfadrannau neu'r Adran Gwasanaethau Proffesiynol baratoi templed er mwyn sicrhau cysondeb yn y wybodaeth a ddarperir i wahanol aelodau o'r staff.

Ymglyfarwyddo â Mannau Gwaith

Dylai'r cynefino gynnwys cyflwyniad i drefniadau a materion lleol yn ymwneud ag iechyd, diogelwch a'r amgylchedd, gan gynnwys llenwi adrannau canlynol y Ffurflen Adroddiad Cychwyn Cyflogaeth Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd :

1. Trefniadau Diogelwch Tân
2. Trefniadau Cymorth Cyntaf
3. Gweithdrefn Cofnodi Digwyddiadau
4. Rhoi Gwybod am Broblemau neu Ddiffygion
5. Polisiâu a Gweithdrefnau Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd

COFRESTR CANLLAW I'R SYSTEM RHEOLI IECHYD A DIOGELWCH		Canllaw	G004
 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY	Canllaw Cynefino Lleol ar Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd	Rhifyn	2
		Dyddiad	Ebrill 2021
		Tudalen	2 o 6

6. Ymwybyddiaeth o'r Ddyletswydd Atal
7. Rheolau a Gweithdrefnau Diogelwch y Gyfadran neu'r Adran Gwasanaethau Proffesiynol
8. E-Ddysgu ar Hanfodion Iechyd a Diogelwch
9. Aseidiadau Risg Penodol i'r Rôl
10. Arall (fel y bo'n briodol)

Mae'r rhestr wirio yn Atodiad 1 yn enghraifft o'r wybodaeth y dylid ei hystyried a'i darparu yn y sesiynau cynefino lleol ar iechyd, diogelwch a'r amgylchedd.

Polisiâu a Gweithdrefnau

Dylai pob aelod newydd o'r staff fod yn ymwybodol o brif bolisiâu a gweithdrefnau'r Brifysgol. Yn dibynnu ar y rôl yr ymgwymerir â hi, efallai y bydd angen gwybodaeth ymarferol fras am bolisiâu penodol eraill (e.e. Polisi Gweithio ar eich Pen Eich Hun, Polisi Pobl Ifanc, etc.). Cyfeirir cydweithwyr hefyd at bolisiâu a gweithdrefnau perthnasol mewn rhai manau trwy gwblhau'r modiwlau E-Ddysgu Hanfodion Iechyd a Diogelwch (gweler yr adran nesaf).

Mae manylion holl bolisiâu, gweithdrefnau, dogfennau canllaw, a ffurflenni Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd Prifysgol Aberystwyth ar gael yn: <https://www.aber.ac.uk/cy/hse/documents/>.

Mae gwybodaeth am bynciau perthnasol i iechyd, diogelwch a'r amgylchedd ar gael yn: <https://www.aber.ac.uk/cy/hse/proc-prac/>.

Dylai gweithdrefnau ac arferion lleol o ran unrhyw waith a wneir yn y Gyfadran neu'r Adran Gwasanaethau Proffesiynol gael eu cynnwys yn Llawlyfr Iechyd a Diogelwch y Gyfadran / Adran Gwasanaethau Proffesiynol.

Hanfodion Iechyd a Diogelwch


Mae gofyn i bob aelod newydd o'r staff gwblhau modiwlau perthnasol cwrs hyfforddi E-Ddysgu ar Hanfodion Iechyd a Diogelwch. Caiff y modiwlau perthnasol eu pennu trwy ymgynghori rhwng yr aelod staff a'r rheolwr llinell perthnasol. Mae'r modiwlau sydd ar gael yn ymdrin â'r pynciau mwyaf cyffredin sy'n berthnasol i iechyd, iechyd a'r amgylchedd, ac y maent yn gyflwyniad bras i'r prif egwyddorion a'r ystyriaethau sy'n gysylltiedig â phob pwnc. Dylai pob modiwl gymryd rhyw 10-15 munud i'w gwblhau. Mae modd cyrchu'r deunyddiau trwy ddilyn y camau isod:

1. Mewngofnodi i AberLearn Blackboard: <https://blackboard.aber.ac.uk/>;
2. Clicio ar y tab 'Fy Modiwlau' ar ochr dde uchaf y dudalen;
3. Dan 'Rhestr Modiwlau 2020-21' fe welwch 'BBHS001: Health, Safety & Environmental Training' – Dewiswch y modiwl hwn.
4. Cliciwch ar 'Dogfennau'r Cwrs' fydd yn dangos pa fodiwlau sydd ar gael.

Dylai pob aelod o staff allu cyrchu'r modiwlau hyn yn awtomatig, gan ddefnyddio eu manylion mewngofnodi Prifysgol.

Mae'r pecyn yn cynnwys modiwlau'n ymwneud â'r pynciau a ganlyn:

1. Ymwybyddiaeth Amgylcheddol
2. Ymwybyddiaeth am Asbestos
3. Osgoi Trais
4. Ymdrin â Sylweddau Peryglus
5. Mynd i'r Afael ag Iechyd a Diogelwch
6. Codi a Chario yn Ddiogel
7. Rheoli Risgiau Galwedigaethol ar y Ffordd

COFRESTR CANLLAW I'R SYSTEM RHEOLI IECHYD A DIOGELWCH		Canllaw	G004
 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY	Canllaw Cynefino Lleol ar Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd	Rhifyn	2
		Dyddiad	Ebrill 2021
		Tudalen	3 o 6

8. Ymdrin â Bygythiad Tân
9. Cofnodi Digwyddiadau Iechyd a Diogelwch
10. Trin Straen
11. Gweithio ar Uchder
12. Gweithio'n Ddiogel gyda Chyfrifiaduron

Am fwy o wybodaeth am y modiwlau hyn, ewch at: <https://www.aber.ac.uk/cy/hse/training/hseessentials/>.

Hyfforddiant

Yn ystod y sesiwn gynefino lleol ar iechyd, diogelwch a'r amgylchedd, rhaid ystyried y gofynion hyfforddi ar gyfer pob aelod newydd o'r staff. Rhaid cael ymgynghori deuffordd rhwng y gweithiwr a'r rheolwr neu'r goruchwyliwr er mwyn nodi hyfforddiant hanfodol fel y gall weithio'n ddiogel. Gall hyn gynnwys, ymhlith pethau eraill, sesiynau yn y gwaith, dosbarthiadau mewnol a/neu gyrsiau allanol. Bydd y cyrsiau'n cael eu nodi ar ôl ystyried y mesurau rheoli a gofnodwyd yn yr asesiadau risg am y gweithgareddau a wneir gan yr unigolyn, a/neu'r cyrsiau hyfforddi a gofnodir ym matrices hyfforddiant y Gyfadran neu'r Adran Gwasanaethau Proffesiynol

Cynghorir yn gryf y dylai cydweithwyr ystyried y Matrics Hyfforddi Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd, sy'n rhoi cyrsiau hyfforddi a awgrymir, yn dibynnu ar y math o rôl, sydd ar gael yn:

<https://www.aber.ac.uk/cy/media/departmental/healthsafetyenvironment/Health,-Safety-and-Environment-Training-Matrix.pdf>.

Ymysg cyrsiau poblogaidd a gynigir gan y Tîm Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd mae:

- Codi a Chario
- Asesu Risg
- Marsial Tân
- Cyflwyniad i Reoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH)
- IOSH: Gweithio'n Ddiogel
- IOSH: Rheoli'r Ddiogel


Am fwy o wybodaeth am y cyrsiau a gynigir gan y Tîm Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd, gan gynnwys manylion am gyrsiau sydd ar y gweill, ewch at: <https://www.aber.ac.uk/cy/hse/training/>. Am unrhyw gymorth ynghylch metrigau hyfforddiant, cysylltwch â'r Tîm Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd ar hasstaff@aber.ac.uk neu ar estyniad 2073.

Ar ôl i'r anghenion hyfforddi gael eu nodi, rhaid i'r Gyfadran neu'r Adran Gwasanaethau Proffesiynol sicrhau y dilynir yr hyfforddiant, ac y cofnodir y manylion. Rhaid i'r Gyfadran neu'r Adran Gwasanaethau Proffesiynol hefyd fonitro a nodi unrhyw ofynion hyfforddi ychwanegol wrth iddynt godi, a hwyluso ail-hyfforddi o bryd i'w gilydd yn ôl y safonau cydnabyddedig.

Llawlyfr Iechyd a Diogelwch

Llawlyfr Iechyd a Diogelwch y Gyfadran neu'r Adran Gwasanaethau Proffesiynol yw'r cyfrwng sy'n golygu bod y Cyfadranau a'r Adranau Gwasanaethau Proffesiynol yn gallu cyfleu'r trefniadau iechyd, diogelwch ac amgylchedd i aelodau newydd o'r staff a'r rhai presennol.


Dylai Cyfadranau ac Adranau Gwasanaethau Proffesiynol sicrhau bod y wybodaeth a gynhwysir yn cael ei hadolygu yn rheolaidd fel bod y wybodaeth a ddarperir yn adlewyrchu'r trefniadau a'r arferion cyfredol. Yn ystod y sesiynau cynefino lleol, dylid cyfeirio'r staff at leoliad y llawlyfr (yn gopi papur a/neu electronig) a sicrhau eu bod yn ymwybodol ohono er mwyn cyfeirio ato trwy gydol cyfnod eu cyflogaeth.

COFRESTR CANLLAW I'R SYSTEM RHEOLI IECHYD A DIOGELWCH		Canllaw	G004
 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY	Canllaw Cynefino Lleol ar Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd	Rhifyn	2
		Dyddiad	Ebrill 2021
		Tudalen	4 o 6

Dylai'r Llawlyfr fod wedi ei gymeradwyo gan Ddirprwy Is-Ganghellor y Gyfadran a'r Rheolwr Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd cyn ei ddsbarthu, ac fe'i hadolygir yn rheolaidd gan staff yn y Gyfadran neu'r Adran Gwasanaethau Proffesiynol. Mae canllaw i helpu gyda datblygu Llawlyfrau Iechyd a Diogelwch Cyfadrannau neu'r Adrannau Gwasanaethau Proffesiynol (G009) ar gael yn: <https://www.aber.ac.uk/cy/hse/documents/>.

Dylid darllen Llawlyfr Iechyd a Diogelwch y Gyfadran neu'r Adran Gwasanaethau Proffesiynol ar y cyd â Llawlyfr Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd y Brifysgol (G015), sydd ar gael yn: <https://www.aber.ac.uk/cy/hse/documents/>.


Am unrhyw gyfarwyddyd neu gyngor am gwblhau neu ddiweddarau Llawlyfr Iechyd a Diogelwch y Gyfadran neu'r Adran Gwasanaethau Proffesiynol, cysylltwch â'r Tîm Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd ar hasstaff@aber.ac.uk neu ar estyniad 2073.

COFRESTR CANLLAW I'R SYSTEM RHEOLI IECHYD A DIOGELWCH		Canllaw	G004
 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY	Canllaw Cynefino Lleol ar Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd	Rhifyn	2
		Dyddiad	Ebrill 2021
		Tudalen	5 o 6

Atodiad 1 Rhestr Wirio ar gyfer Sesiynau Cynefino Lleol ar Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd

Mae'r rhestr wirio hon yn fframwaith er mwyn i'r staff sy'n gyfrifol am gyflwyno sesiynau cynefino lleol ar iechyd, diogelwch a'r amgylchedd allu strwythuro'r wybodaeth a ddarperir. Sylwch nad yw'r rhestr wirio hon yn cynnwys popeth, gan y gall fod angen cyfarwyddiadau ychwanegol neu benodol mewn rhai achosion.

Diogelwch Tân (Mwy o wybodaeth ar gael yn: https://www.aber.ac.uk/cy/hse/proc-prac/fire-safety/)		
Dangos lle mae'r manau agosaf ar gyfer seinio'r larwm tân (torri'r gwydr)	<input type="checkbox"/> Ie	<input type="checkbox"/> Na
Dangos lle mae'r diffoddyddion tân agosaf	<input type="checkbox"/> Ie	<input type="checkbox"/> Na
Disgrifio sut a phryd i seinio larwm tân	<input type="checkbox"/> Ie	<input type="checkbox"/> Na
Dangos lle mae'r hysbysiad agosaf am beth i'w wneud os bydd tân, a'r man ymgynnull perthnasol	<input type="checkbox"/> Ie	<input type="checkbox"/> Na
Cymorth Cyntaf (Mwy o wybodaeth ar gael yn: https://www.aber.ac.uk/cy/hse/proc-prac/first-aid/)		
Dweud lle mae'r blychau cymorth cyntaf agosaf	<input type="checkbox"/> Ie	<input type="checkbox"/> Na
Rhoi enwau'r staff hyfforddedig Cymorth Cyntaf yn y Gwaith (CCG) a Chymorth Cyntaf Brys yn y Gwaith (CCBG) cyfagos	<input type="checkbox"/> Ie	<input type="checkbox"/> Na
Trefniadau ail-gyflenwi cyflenwadau cymorth cyntaf a ddefnyddiwyd neu a ddaeth i ben	<input type="checkbox"/> Ie	<input type="checkbox"/> Na
Rhifau Cyswllt mewn Argyfwng sydd ar gael (e.e. 222 am gymorth cyntaf, 9999 o'r ffôn mewnol am y Gwasanaethau Brys)	<input type="checkbox"/> Ie	<input type="checkbox"/> Na
Cofnodi Digwyddiadau (Mwy o wybodaeth ar gael yn: https://www.aber.ac.uk/cy/hse/proc-prac/incident-reporting/)		
Dangoswyd dulliau asesu'r ffurflen cofnodi digwyddiadau	<input type="checkbox"/> Ie	<input type="checkbox"/> Na
Disgrifiwyd y weithdrefn leol am ffurflenni cofnodi digwyddiadau, h.y., i bwy y dylid cyflwyno ffurflenni cofnodi digwyddiadau a lenwyd	<input type="checkbox"/> Ie	<input type="checkbox"/> Na
Pwysleisiwyd pwysigrwydd cofnodi pob digwyddiad ac unrhyw ddamwain bosib a osgowyd o drwch blewyn	<input type="checkbox"/> Ie	<input type="checkbox"/> Na
Rhoi Gwybod am Broblemau		
Darparu manylion i Ddesg Gymorth y Campws (campushelp@aber.ac.uk neu estyniad 2999)	<input type="checkbox"/> Ie	<input type="checkbox"/> Na
Manylion am strwythur adrodd y Gyfadran/Adran, gan gynnwys rheolwyr llinell a manylion cyswllt allweddol (e.e. Cydlynedd Iechyd a Diogelwch)	<input type="checkbox"/> Ie	<input type="checkbox"/> Na
Polisiau Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd y Brifysgol (Mwy o wybodaeth ar gael yn: https://www.aber.ac.uk/cy/hse/documents/)		
Dangos y Poster Cyfraith Iechyd a Diogelwch agosaf	<input type="checkbox"/> Ie	<input type="checkbox"/> Na
Annog darllen a dilyn Polisi Iechyd a Diogelwch y Brifysgol	<input type="checkbox"/> Ie	<input type="checkbox"/> Na
Dangos lle mae'r copi lleol o Dystysgrif Yswiriant Atebolrwydd y Cyflogwr	<input type="checkbox"/> Ie	<input type="checkbox"/> Na
Yn ymwybodol o leoliad Polisiâu a Gweithdrefnau eraill y Brifysgol	<input type="checkbox"/> Ie	<input type="checkbox"/> Na
Ymwbyddiaeth o'r Ddyletswydd 'Prevent' (Mwy o wybodaeth ar gael yn: https://www.aber.ac.uk/cy/hse/proc-prac/prevent/)		
Dangos lle mae gwefan a deunydd hyfforddi'r Ddyletswydd 'Prevent'	<input type="checkbox"/> Ie	<input type="checkbox"/> Na
Annog cwblhau deunydd hyfforddi'r Ddyletswydd 'Prevent' yn brydlon	<input type="checkbox"/> Ie	<input type="checkbox"/> Na
Rheolau a Gweithdrefnau Diogelwch Cyfadrannol/Adrannol		
Darparu copi o a/neu fynediad at Lawlyfr Iechyd a Diogelwch y Gyfadran/Adran Gwasanaethau Proffesiynol	<input type="checkbox"/> Ie	<input type="checkbox"/> Na
Amlygu agweddau perthnasol y llawlyfr ar gyfer y rôl sydd i'w chyflawni	<input type="checkbox"/> Ie	<input type="checkbox"/> Na
Darparu manylion asesiadau risg penodol i'r rôl	<input type="checkbox"/> Ie	<input type="checkbox"/> Na
E-Ddysgu Hanfodion Iechyd a Diogelwch (Mwy o wybodaeth ar gael yn: https://www.aber.ac.uk/cy/hse/training/hseessentials/)		

COFRESTR CANLLAW I'R SYSTEM RHEOLI IECHYD A DIOGELWCH		Canllaw	G004
 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY	Canllaw Cynefino Lleol ar Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd	Rhifyn	2
		Dyddiad	Ebrill 2021
		Tudalen	6 o 6

Sicrhau mynediad at y Modiwlau Hyfforddi E-Ddysgu Hanfodion Iechyd a Diogelwch	<input type="checkbox"/> Ie	<input type="checkbox"/> Na
Penderfynu ar y modiwlau perthnasol i'w cwblhau gan yr aelod newydd o'r staff	<input type="checkbox"/> Ie	<input type="checkbox"/> Na
Monitro bod yr holl fodiwlau e-ddysgu perthnasol wedi eu cwblhau	<input type="checkbox"/> Ie	<input type="checkbox"/> Na
Ystyriaethau Eraill (os ydynt yn berthnasol)		
Rhoi'r Cyfarpar Gwarchod Personol (PPE) angenrheidiol ar gyfer y rôl	<input type="checkbox"/> Ie	<input type="checkbox"/> Na
Llenwi ffurflen gais am Yrrwr Awdurdodedig	<input type="checkbox"/> Ie	<input type="checkbox"/> Na
Darparu copi o'r Rhestr Wirio VDU (Unedau Arddangos Gweledol, sef sgrin gyfrifiadurol)	<input type="checkbox"/> Ie	<input type="checkbox"/> Na
Dangos y cyfleusterau lles a'r gegin, gan bwysleisio pwysigrwydd eu cadw'n lân ac yn rhydd o rwystrau	<input type="checkbox"/> Ie	<input type="checkbox"/> Na